



Comisiwn Brenhinol  
Henebion Cymru  
Royal Commission on the Ancient  
and Historical Monuments of Wales

# Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol

### 2019-20



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2020.

Trwyddedir y wybodaeth hon dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/>.

**OGL**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, [chc.cymru@cbhc.gov.uk](mailto:chc.cymru@cbhc.gov.uk).

## Tabl cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
1.1. Hysbysiad cydymffurfio .....	3
1.2. Fformat yr Adroddiad Blynyddol hwn .....	3
<b>2. Uchafbwyntiau.....</b>	<b>4</b>
2.1. Nifer y staff sy'n gwella eu sgiliau Cymraeg yn parhau'n uchel .....	4
2.2. Cynnydd eto mewn ymholiadau Cymraeg.....	4
2.3. Lansio ein siop ar-lein ddwyieithog .....	4
2.4. Hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus yn ein cynadleddau .....	4
2.5. Hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn llwyddiannus.....	5
<b>3. Blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 .....</b>	<b>6</b>
3.1. Parhau i gefnogi staff i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg .....	6
3.2. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff .....	6
3.3. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth .....	6
<b>4. Cydymffurfio a hyrwyddo.....</b>	<b>7</b>
4.1. Darparu Gwasanaethau (Safonau 1-9; 11-14; 16-17; 19-22; 24-34; 36; 43-48; 51-55; 57-60; 63-66; 72-73A; 75-80; 82) .....	7
4.2. Llunio Polisi (Safonau 84-89; 91-93) .....	9
4.3. Gweithredol (Safonau 94-108; 110-12; 114-17; 120-33; 135-39) .....	10
4.4. Cadw Cofnodion (Safonau 141-48).....	11
4.5. Atodol (Safonau 149-68) .....	11
<b>5. Adrodd statudol .....</b>	<b>13</b>
5.1. Cwynion .....	13
5.2. Sgiliau Cymraeg y staff .....	13
5.3. Hyfforddiant a ddarparwyd yn y Gymraeg .....	13
5.4. Recriwtio .....	13
<b>6. Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21 .....</b>	<b>14</b>
6.1. Monitro ac adolygu ffyrdd o weithio .....	14
6.2. Parhau i gefnogi'r staff .....	14
6.3. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff .....	14
6.4. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth .....	14
<b>Atodiad 1: Rhestr wirio hunanreoleiddio .....</b>	<b>15</b>

## **1. Cyflwyniad**

---

Cynhychir yr Adroddiad Blynyddol hwn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

### **1.1. Hysbysiad cydymffurfio**

Derbyniodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ('y Comisiwn') ei hysbysiad cydymffurfio ar gyfer Safonau'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2016. Daeth y rhan fwyaf o'r safonau i rym ar 25 Ionawr 2017. Y dyddiad gosod ar gyfer gweddill y safonau (2, 3, 21, 48, 52 a 101-07) oedd 25 Gorffennaf 2017.

### **1.2. Fformat yr Adroddiad Blynyddol hwn**

Ym mis Ebrill 2018, darparodd Comisiynydd yr Iaith dempled ar gyfer hunanreoleiddio. Defnyddiwyd y templed hwn gan Grŵp Monitro Iaith Gymraeg y Comisiwn yn sail i Adroddiad Blynyddol y ddwy flynedd ddiwethaf, a byddwn yn parhau â'r arfer hwn. (Gweler Atodiad 1 am y rhestr wirio a gwblhawyd gennym ar gyfer 2019-20.)

## 2. Uchafbwyntiau

---

Y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020 oedd y drydedd flwyddyn lawn i'r Comisiwn o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydym wedi canolbwyntio ar gyfnerthu'r gwaith a wnaed wrth baratoi ar gyfer cydymffurfio ac wedi parhau i helpu'r staff i wreiddio'r Safonau yn eu gwaith pob dydd.

### 2.1. Nifer y staff sy'n gwella eu sgiliau Cymraeg yn parhau'n uchel

Mae llawer o'n staff wedi ymrwymo i wella eu sgiliau Cymraeg ac, yn ystod 2019-20, manteisiodd 38% o'n staff ar y cyfle i fynychu gwahanol gyrsiau Cymraeg yn ystod amser gwaith. Llwyddodd un aelod staff yn yr arholiad Mynediad, a phasiodd un arall yr arholiad Canolradd gyda chlod. Mae'r ymrwymiad hwn yn talu ar ei ganfed, ac rydym yn falch o'r aelodau staff hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg fwyfwy yn y gweithle. Uchafbwynt arbennig oedd gweld un o'n dysgwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen deledu *Waliau'n Siarad* ar S4C.

### 2.2. Cynnydd eto mewn ymholiadau Cymraeg

Eleni eto rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer blynyddol yr ymholiadau Cymraeg a dderbyniwn. Mae wedi codi o ryw 1.2% yn 2015-16 i 11% yn 2018-19 ac 20% yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Cafodd y Gymraeg ei defnyddio gan 16% o'r bobl a ymwelodd â'n Llyfrgell a chan 14% o'r rheiny a ddefnyddiodd ein harchif yn ystod 2019-20 (11% a 9%, yn y drefn honno, yn 2018-19).

### 2.3. Lansio ein siop ar-lein ddwyieithog

Ym mis Rhagfyr 2019 roeddem yn falch o lansio ein siop ar-lein lwyr ddwyieithog newydd (siop.cbhc.gov.uk). Bydd ein defnyddwyr yn gallu dewis eu hiaith a siopa drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg (mae hyn yn cynnwys y tudalennau talu); byddant yn gallu cyrchu ein catalog cyfan o gyhoeddiadau, gan gynnwys teitlau allan o brint sydd ar gael fel eLyfrau.

### 2.4. Hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus yn ein cynadleddau

Pryd bynnag y bo modd, bydd y Comisiwn yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y sector treftadaeth yng Nghymru a thu hwnt.

Mewn dwy gynhadledd bwysig a drefnwyd gan y Comisiwn yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, aethom ati i annog defnydd o'r Gymraeg a gwahoddwyd y siaradwyr i gyflwyno eu papurau yn Gymraeg. Roedd yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd yn ein cynhadledd flynyddol Gorffennol Digidol yn cynnwys y sylw "Fe fwynheais glywed y Gymraeg yn cael ei siarad mewn amgylchedd proffesiynol – fe ges i fy ysbrydoli i ddysgu mwy!" Bydd siaradwyr a chynrychiolwyr o wledydd tramor yn mynychu'r gynhadledd hon ac mae clywed y Gymraeg yn helpu i godi proffil yr iaith a gwybodaeth amdani y tu hwnt i Gymru yn ogystal ag ysgogi diddordeb yn y defnydd a wneir ohoni.

## 2.5. Hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn llwyddiannus

Ymgwymerwyd â dau brif weithgaredd yn ystod y flwyddyn i ymgysylltu â'n defnyddwyr Cymraeg eu hiaith a hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg, sef mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol (a rhoi sgwrs ym Mhabell y Cymdeithasau) a chefnogi Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 6 Rhagfyr 2019. Fel rhan o'r ymgyrch #Maegenihawl buom yn postio negeseuon ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod y dydd, a chyrrhaeddodd un postiad Facebook bron 800 o ddarllenwyr, a chafodd y staff eu hatgoffa o'u hawliau yn y gweithle.



### **3. Blaenoriaethau ar gyfer 2019-20**

---

Gan adeiladu ar arferion sydd eisoes wedi'u gwreiddio, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd y Grŵp Monitro i gyfarfod bob tri mis a llwyddodd i gwblhau'r gweithgareddau cyfredol yn ei gynllun gweithredu, a gawsai ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol a'r Comisiynwyr. Bydd gwaith pellach ar rai nodau strategol yn parhau i 2020-21.

Yn ystod 2019-20 fe ganolbwyntiodd y Comisiwn ar y blaenoriaethau a ganlyn:

#### **3.1. Parhau i gefnogi staff i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

Rydym wedi parhau i ddarparu cefnogaeth, gan gyhoeddi canllawiau neu ddiweddariadau i'r staff, er enghraifft ar 6 Rhagfyr 2019 i gefnogi Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a drefnwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Rhoddwyd gwybod am Safonau'r Gymraeg i bob aelod staff newydd yn ystod eu rhaglen sefydlu. Rhoddwyd cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg gyda chynulleidfaedd allanol, er enghraifft yn Eisteddfod Genedlaethol 2019.

#### **3.2. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff**

Cynigiwyd rhaglen lawn o hyfforddiant i'r staff, ar wahanol lefelau o rugledd, yn ystod amser gwaith ac am ddim (naill ai drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith neu hyfforddiant wedi'i deilwra'n unigol).

#### **3.3. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth**

Pryd bynnag y bo modd, fe fydd y Comisiwn yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ein sector. Mae hyn yn cynnwys mewn cynadleddau proffesiynol (gweler 2.4 uchod). Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd y rhestr dermau ddwyieithog a grëwyd gan y Comisiwn a pharatowyd ar gyfer Archwiliad Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) 2020. Bydd yr Archwiliad CAH yn cynnwys cwestiynau am faint o ddeunydd Cymraeg sydd ar gael yn y CAHion a nifer yr ymholiadau Cymraeg a atebwyd. Defnyddir y canlyniadau'n feincnod ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol.



## 4. Cydymffurfio a hyrwyddo

---

Ar ôl tair blynedd o gydymffurfio â'r Safonau, mae ein staff wedi gwreiddio'r gofynion yn eu gweithgareddau pob dydd ym mhob agwedd ar eu gwaith.

### 4.1. Darparu Gwasanaethau (Safonau 1-9; 11-14; 16-17; 19-22; 24-34; 36; 43-48; 51-55; 57-60; 63-66; 72-73A; 75-80; 82)

Bydd y Comisiwn yn darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau gwasanaeth cyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os oedd angen, cafodd arferion gwaith newydd eu sefydlu wrth roi'r Safonau ar waith yn 2017. Ni chyflwynwyd unrhyw arferion gwaith newydd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Manylir ymhellach ar ein harferion gwaith arferol a'r gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn ein Polisi Iaith Gymraeg (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22/>).

Yn y paragraffau sy'n dilyn (4.1.1 – 4.1.3), rhoddir enghreifftiau o sut y bydd y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Safonau ac yn hyrwyddo ei wasanaethau Cymraeg.

#### 4.1.1. Gohebiaeth a galwadau ffôn

Pan dderbyniwn ohebiaeth yn y Gymraeg, byddwn yn ateb, os oes angen ateb, o fewn yr un amser targed ag yr atebwn ohebiaeth a dderbynnir yn y Saesneg. Bydd gohebiaeth gennym yn nodi ein bod ni'n croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd ein llofnodion electronig dwyieithog yn nodi a yw'r aelod staff yn siarad Cymraeg.

Er mwyn sicrhau y gall ein staff ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog, cynigir hyfforddiant i staff y mae angen cymorth arnynt. Mae system awtomataidd y Comisiwn ar gyfer ei brif rif ffôn yn rhoi dewis i alwyr siarad ag aelod staff yn y Gymraeg ac mae gan ein holl ffonau ateb negeseuon wedi'u recordio dwyieithog.

Roedd yn dda gennym nodi i nifer y galwadau ffôn Cymraeg a dderbyniwyd yn ystod 2019-20 bron â dyblu (o 8% i 15%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

#### **4.1.2. Cyfarfodydd, ymweliadau a digwyddiadau i'r cyhoedd**

Bydd staff y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg yn parhau i wisgo bathodyn a/neu gortyn i ddangos eu bod nhw'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg. Bydd nifer o'n dysgwyr hefyd yn gwisgo cortyn 'Dysgwr'. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau iaith yn y gweithle.

Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo ei holl ddigwyddiadau'n ddwyieithog ac yn paratoi gwybodaeth a deunydd hyrwyddo dwyieithog, e.e. paneli arddangos, ar gyfer y cyhoedd. Mae taflenni gwybodaeth diwygiedig a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn awr yn cynnwys y symbol Iaith Gwaith ('Cymraeg') er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. Caiff newyddlenni ein prosiect *CHERISH* Iwerddon-Cymru a ariennir gan yr UE eu cynhyrchu'n ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal â'r Wyddeleg a'r Saesneg.

Fel rhan o'n rhaglen estyn-allan, rydym wedi parhau i ddarparu gweithgareddau dwyieithog ar gyfer plant yn ein digwyddiadau ac i groesawu ymweliadau i'n Hystafell Ymchwil gan grwpiau. Roedd ymweliadau gan grwpiau yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys Panel Ieuenctid Haneswyr Ceredigion a myfyrwyr o'r Adran Gymraeg.

Roedd holl weithgareddau'r Cloddiad Cymunedol a drefnwyd gan *CHERISH* ym mis Awst 2019 yn ddwyieithog. Ar y Diwrnod Agored, cynhaliwyd teithiau tywys yn y Gymraeg a'r Saesneg, a dewisodd mwy na hanner yr ymwelwyr (56% neu 157 o bobl) y teithiau Cymraeg a 44% (122 o bobl) y teithiau Saesneg. Cafodd y cloddiad sylw ar raglen *Heno S4C* (drwy Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd).

Yn olaf, cydymffurfiodd *Prosiect Llongau-U Cymru 1914-18: Coffáu'r Rhyfel ar y Môr* (wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn llawn â'n Safonau Cymraeg. Cafodd y Gymraeg ei hyrwyddo'n egniol drwy gydol cyfnod y prosiect, er enghraifft, mewn cynadleddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ymhlith ein partneriaid niferus a greodd arddangosfeydd



dwyieithog. Ymddangosodd Swyddogion y Prosiect, gan gynnwys dysgwr, ar raglenni S4C a rhoddasant gyfweiliadau ar Radio Cymru. Mae gwefan y prosiect, yr adnoddau addysgol ar Hwb, y llyfryn printiedig, a'r cynnwys a gyhoeddwyd ar wefan Casgliad y Werin Cymru i gyd yn llwyr ddwyieithog.

#### **4.1.3. Gwasanaethau ar-lein**

Yn ystod 2019-20, mae'r Comisiwn wedi parhau â'i bresenoldeb dwyieithog cryf ar gyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) ac mae ein gwefan gorfforaethol yn llwyr ddwyieithog. Yn yr un modd, yn achos CHERISH, mae'r holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol gan y partneriaid Cymreig (y Comisiwn a Phrifysgol Aberystwyth) yn parhau i gael eu postio'n ddwyieithog.

Ar hyn o bryd mae tua 3% o'n dilynwyr wedi dewis derbyn y fersiwn Cymraeg o flog y Comisiwn, sef nifer tebyg i'r llynedd. Oherwydd y ffordd y mae ein cyfrifon dadansoddeg ar-lein yn gweithio, mae'n anodd i ni wahanu traffig Cymraeg a Saesneg ar ein gwefannau ar hyn o bryd. Er mwyn cael peth gwybodaeth am ddewisiadau iaith ein cynulleidfaoedd, rydym wedi edrych ar y wybodaeth a gesglir gan Google Analytics am osodiad iaith y porwyr sy'n cael eu defnyddio gan bobl sy'n cyrchu ein gwefannau. O gymharu â ffigurau'r llynedd, yn 2019-20 fe ddyblodd canran y defnyddwyr yr oedd eu porwyr wedi'u gosod ar 'Cymraeg' a gyrchodd wefan gorfforaethol y Comisiwn ([cbhc.gov.uk](http://cbhc.gov.uk) / [rcahmw.gov.uk](http://rcahmw.gov.uk)), o 0.5% i 1.03%. O ran cyrchu gwefan Coflein ([coflein.gov.uk](http://coflein.gov.uk)), roedd cynnydd o 34% yn nifer y porwyr a oedd wedi'u gosod ar 'Cymraeg' o gymharu â 2018-19.

#### **4.2. Llunio Polisi (Safonau 84-89; 91-93)**

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i'r iaith Cymraeg yn ei holl bolisiau a gweithgareddau.

##### **4.2.1. Cyfrifoldeb**

Y Tîm Gweithredol (uwch reolwyr) sy'n gyfrifol am fesur a phwyso polisiau, mentrau a gwasanaethau newydd neu ddiwygiedig cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan ein Bwrdd Comisiynwyr.

#### **4.2.2. Lluio, adolygu neu ddiwygio polisi**

I sicrhau y bydd polisiâu, mentrau a gwasanaethau newydd yn gyson â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Comisiwn, wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisi, yn ystyried yr effeithiau, os oes rhai (cadarnhaol neu negyddol), ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud penderfyniad polisi a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafodd Fframwaith Aseidiadau o Effaith ar yr Iaith Gymraeg ei sefydlu wrth roi'r Safonau ar waith. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, gwnaed aseidiadau o'r fath o brosiect Darpariaeth Ddigidol y Comisiwn a rhoddwyd y gweithredoedd a argymhellwyd ar waith. Bydd y prosiect hwn, sy'n datblygu platfform technegol newydd ar gyfer Coflein (cronfa ddata ar-lein y Comisiwn), yn cynnig mwy o gyfleoedd i gyrchu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y gwasanaethau'n cael eu darparu yng nghyd-destun ein heithrio o Safon 48, byddwn yn ei gwneud hi'n bosibl i ychwanegu mwy o gynnwys disgrifiadol dwyieithog at y gronfa ddata ac i ganiatáu i'r cyhoedd ei adalw. Rydym hefyd yn gweithio gyda chyflenwr allanol, iBase, i ymchwilio i ddulliau o wreiddio dwyieithrwydd ym meysydd e-fasnach a thrwyddedu.

#### **4.3. Gweithredol (Safonau 94-108; 110-12; 114-17; 120-33; 135-39)**

I sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau gweithredol, bu'r Comisiwn yn adolygu ac yn diwygio sawl dogfen a pholisi mewnol, ac yn diweddarau gweithdrefnau, cyn y dyddiadau gosod yn ein Hysbysiad Cydymffurfio.

##### **4.3.1. Darparu dogfennau dwyieithog at ddefnydd ein staff**

Cafodd yr holl ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn y Safonau perthnasol eu diwygio, ac roeddynt ar gael i'r staff yn Gymraeg a Saesneg, a hynny erbyn y dyddiadau gosod yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, rhoddwyd dewis i'r ddau aelod staff newydd eu penodi dderbyn eu dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg.

#### 4.3.2. Sgiliau Cymraeg y staff

Ymgwymerwyd ag archwiliad sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Gweler adran 5.2 am fanylion pellach.

O ran gofynion swyddi, mae gan 26 aelod staff (70%) y lefel leiaf o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer eu swydd. Mae hyn 1 (3%) yn llai na'r llynedd. Sut bynnag, mae'n cymharu â 14 (44%) yn unig yn 2017.

#### 4.3.3. Hyfforddiant iaith Gymraeg (Safonau 126-27)

Bydd y Comisiwn yn annog staff yn gryf i ddysgu Cymraeg ac yn eu helpu i feithrin eu sgiliau iaith. Yn ystod y cyfnod adrodd:

- Mynychodd 14 aelod staff (38%) wersi Cymraeg wythnosol yn ystod oriau gwaith, y rhan fwyaf ohonynt fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith.
- Mynychodd un aelod staff gwrs Cymraeg dwys wythnos o hyd, wedi'i drefnu drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith, yn Nant Gwrtheyrn.
- Mynychodd un aelod staff yr Ysgol Haf flynyddol yn Aberystwyth.

#### 4.3.4. Gwobrau a chyflawniadau

Llwyddodd un aelod staff yn yr arholiad Mynediad, ac enillodd un arall glod yn yr arholiad Canolradd.

#### 4.4. Cadw Cofnodion (Safonau 141-48)

Parheir i ddefnyddio system ffeilio gofrestrfa gyfredol y Comisiwn i gadw'r holl gofnodion ynghylch yr iaith Gymraeg fel y nodir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio.

#### 4.5. Atodol (Safonau 149-68)

##### 4.5.1. Mae'r dogfennau a ganlyn ar gael ar wefan y Comisiwn:

- Hysbysiad Cydymffurfio (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/>) ac mae copi printiedig ar gael yn y Llyfrgell ac Ystafell Ymchwil at ddefnydd y cyhoedd (Safonau 149, 155, 161, 167).
- Dogfen Cydymffurfio (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio/>), sy'n esbonio sut y mae'r

Comisiwn yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â hwy (Safonau 153, 159, 165).

- **Polisi Cwynion** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/polisiau/polisi-cwynion/>), sy'n esbonio sut y gellir cysylltu â ni i fynegi pryder neu wneud cwyn, a'r drefn y bydd y Comisiwn yn ei dilyn wrth ystyried cwynion (Safonau 150, 156, 162).
- **Polisi Iaith Gymraeg** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22/>) (Safon 151).
- **Yr Adroddiad Blynyddol hwn** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/cydymffurfio-a-safonau-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2019-20/>) (Safonau 152, 158, 164).

#### **4.5.2. Sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu monitro'n effeithiol**

Bydd monitro'n cael ei wneud yn anffurfiol, gan aelodau unigol y Grŵp Monitro, ac yn ffurfiol mewn cyfarfodydd a gynhelir bob tri mis. Adroddir i'r Tîm Gweithredol a'r Comisiynwyr. Hefyd mae'r Grŵp Monitro wedi paratoi cynllun gweithredu i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau.

## 5. Adrodd statudol

---

### 5.1. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd.

### 5.2. Sgiliau Cymraeg y staff

Cynhaliwyd archwiliad sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Gofynnwyd i'r staff hunanasesu eu sgiliau iaith mewn perthynas â gwrando/siarad, darllen/deall ac ysgrifennu (lefel 0 = dim sgiliau Cymraeg, 5 = hyfedr) gan ddefnyddio'r datganiadau 'Gallu Gwneud' ar y Fframwaith ALTE.

Roedd y canlyniadau fel a ganlyn: allan o 37 staff a oedd yn cael eu cyflogi ar y pryd:

- roedd gan 37 ohonynt (100%) ryw lefel o sgil yn y Gymraeg;
- roedd 20 ohonynt (54%) wedi asesu bod ganddynt sgiliau ar lefel 3 ac uwch;
- roedd 17 ohonynt (46%) wedi asesu bod eu sgiliau yn is na lefel 3;
- roedd 4 ohonynt (11%) wedi asesu bod eu sgiliau wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf yn 2018.

### 5.3. Hyfforddiant a ddarparwyd yn y Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni ddarparwyd unrhyw gyrsiau hyfforddi (yn y Gymraeg na'r Saesneg) ar y topigau sydd wedi'u rhestru yn Safonau 124 a 125.

### 5.4. Recriwtio

#### 5.4.1. Staff

Cafodd pedair swydd wag eu llenwi yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd, i lefel 4 o leiaf yn achos tair ohonynt.

Rhodddwyd dewis i bob aelod staff newydd dderbyn eu dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg a derbyniodd pob un ohonynt hyfforddiant sefydlu a oedd yn amlinellu eu dyletswyddau a chyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg.

#### 5.4.2. Comisiynwyr

Mae'r Comisiwn yn y broses o recriwtio dau Gomisiynydd newydd (mae hyn wedi'i atal am y tro oherwydd yr argyfwng COVID-19). Yn yr hysbysebion ar gyfer y ddwy swydd, nodwyd bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol hyd at lefel 2 o leiaf.

## **6. Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21**

---

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer 2020-21 yn cynnwys y canlynol:

### **6.1. Monitro ac adolygu ffyrdd o weithio**

Byddwn yn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg yn ystod cyfnod o newid o ganlyniad i COVID-19.

### **6.2. Parhau i gefnogi'r staff**

Byddwn yn parhau i roi cymorth i'r staff i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth weithio gartref ar yr adeg anodd hon, ac i helpu aelodau staff newydd eu penodi i wreiddio'r Safonau.

### **6.3. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff**

Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o ddewisiadau hyfforddi i wella sgiliau Cymraeg ein staff (gan gynnwys sefydlu rhaglen dysgu o bell). Darperir sesiwn ynganu hefyd. (Mae'r rhan fwyaf o'n staff a fu'n mynychu gwersi Cymraeg wythnosol am y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gwneud hynny fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru, felly pan ddaeth y cynllun i ben yn sydyn ar ddiwedd Mawrth 2020, roedd gwneud trefniadau eraill ar fyr rybudd yn flaenoriaeth.)

### **6.4. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth**

Byddwn yn parhau i gynnig arweinyddiaeth mewn perthynas â hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws sector yr amgylchedd hanesyddol drwy annog defnydd o'r derminoleg Gymraeg a baratowyd wrth ddatblygu safonau ar gyfer y sector. Byddwn yn defnyddio canlyniadau Archwiliad Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) 2020, a fydd yn cynnwys cwestiynau am faint o ddeunydd Cymraeg sydd ar gael yn y Cofnodion ac am nifer yr ymholiadau yn y Gymraeg y maen nhw wedi'u hateb, yn feincnod ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol.



## Atodiad 1: Rhestr wirio hunanreoleiddio

CADW COFNODION	Ydyw / Nac ydyw	Sylwadau / Angen gweithredu
<b>Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) yn:</b>		
Cadw cofnod o nifer y cwynion y mae'n eu cael ynghylch cydymffurfio â'r safonau;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.  Gweler yr Adroddiad Blynyddol.
Cadw copi o bob cwyn ysgrifenedig y mae'n ei chael ynghylch cydymffurfio â'r safonau;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.  Gweler yr Adroddiad Blynyddol.
Cadw copi o bob cwyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.  Gweler yr Adroddiad Blynyddol.
Cadw cofnod o'r camau a gymerodd i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi.	Ydyw	<a href="https://cbhc.gov.uk/amdano-m-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio">https://cbhc.gov.uk/amdano-m-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio</a>
<b>Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) yn:</b>		
Cadw cofnod o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg, a lefel y sgiliau hynny os yw'r wybodaeth ar gael;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.
Cadw cofnod o bob asesiad o'r sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi newydd a gwag;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.
Cadw cofnod o nifer y swyddi newydd a gwag a aseswyd fel bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2019-20

ddymunol, ddim yn angenrheidiol, a bod angen dysgu Cymraeg;		
Cadw cofnod o nifer (a chanran os yn berthnasol) y staff wnaeth fynychu hyfforddiant penodol sy'n ofynnol ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch).	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.

<b>HYRWYDDO TREFNIADAU</b>	<b>Ydyw / Nac ydyw</b>	<b>Sylwadau / Angen Gweithredu</b>
<b>Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi:</b>		
Cyhoeddi dogfen ar ei wefan yn cofnodi'r holl safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (e.e. drwy gyhoeddi copi o'i hysbysiad cydymffurfio);	Ydyw	<a href="https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg">https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg</a>
Cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ei wefan.	Ydyw	<a href="https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/polisiau/polisi-cwynion">https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/polisiau/polisi-cwynion</a>
<b>Mae'r weithdrefn gwyno'n nodi sut y bydd CBHC yn:</b>		
Delio â chwynion ynghylch sut y mae'n cydymffurfio â'r safonau;	Ydyw	
Hyfforddi staff i ddelio â'r cwynion.	Ydyw	
<b>Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi sefydlu trefniadau ar gyfer:</b>		
Goruchwylio'i gydymffurfiaeth â'r safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy;	Ydyw	Y Grŵp Monitro Iaith Gymraeg.
Hybu'r gwasanaethau Cymraeg y mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau;	Ydyw	

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2019-20

Hwyluso defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg y mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau.	Ydyw	
<b>Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi:</b>		
Cyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n cofnodi ei drefniadau ar gyfer goruchwyllo, hybu a hwyluso;	Ydyw	<a href="https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22">https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22</a>
Cyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Ydyw	<a href="https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio">https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio</a>

<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL</b>	<b>Ydyw / Nac ydyw</b>	<b>Sylwadau / Angen gweithredu</b>
<b>Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi:</b>		
Cyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg ar ei wefan erbyn 30 Medi (dim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol);	Ydyw	<a href="https://cbhc.gov.uk/cydymffurfio-a-safonau-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2019-2020">https://cbhc.gov.uk/cydymffurfio-a-safonau-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2019-2020</a>
Rhoi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad blynyddol.	Ydyw	Hysbysiad ar <i>Twitter</i> , <i>Facebook</i> a'r rhwydwaith Cyfeillion.
<b>Mae adroddiad blynyddol CBHC yn:</b>		
Delio â'r modd y gwnaeth gydymffurfio â'r gwahanol ddsbarthiadau o safonau a osodwyd arno;	Ydyw	
Cynnwys nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg;	Ydyw	
Cynnwys nifer (a chanran os yn berthnasol) y staff wnaeth fynychu hyfforddiant penodol	Ydyw	

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2019-20

sy'n ofynnol ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch);		
Cynnwys nifer y swyddi newydd a gwag a aseswyd fel bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol, a bod angen dysgu Cymraeg;	Ydyw	
Cynnwys nifer y cwynion a gafodd y sefydliad ynghylch pob dosbarth gwahanol o safonau.	Ydyw	